**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Peredur,

**Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau**

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'ch llythyr ar 16 Tachwedd 2022 ynglŷn â chraffu ar oblygiadau ariannol Biliau'r Llywodraeth.

Mae eich llythyr yn tynnu sylw at y pryder bod Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o'r arfer yn y Bumed Senedd o ddarparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 cyn dadl yr Egwyddorion Cyffredinol a Phenderfyniad Ariannol.

Yn ystod dadl Cyfnod 1 y mae Gweinidogion yn rhoi esboniad o ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion ym mhob adroddiad Pwyllgor ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, ond nid pob un, maent wedi rhoi mwy o fanylion drwy lythyr ffurfiol.

Er y bu achlysuron yn ystod y Bumed Senedd pan gyhoeddwyd ymatebion y Llywodraeth cyn neu ar ddyddiad dadl yr Egwyddorion Cyffredinol, nid oedd hyn yn rhywbeth arferol ar gyfer pob Bil. Mewn gwirionedd, cyhoeddwyd dros hanner yr ymatebion yn ysgrifenedig ar ôl y ddadl neu fe'u darparwyd ar lafar yn ystod y ddadl.

Mae Gweinidogion yn ymdrechu i ymateb i'r Pwyllgorau cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ond nid yw bob amser yn ymarferol i Weinidogion Cymru wneud hyn cyn dadl Cyfnod 1 ar gyfer pob Bil, felly yn ymarferol mae'n bosibl y darperir yr ymatebion ysgrifenedig hyn ar ôl i'r ddadl ddigwydd.

Efallai y bydd amgylchiadau pan fo angen mwy o amser i ystyried goblygiadau'r argymhellion neu pan nad yw'r manylion sydd eu hangen i ddarparu ymateb cyflawn ar gael cyn dadl Cyfnod 1. Yn ogystal, gall y ddeddfwriaeth fod yn fath newydd o ddeddfwriaeth ac er ein bod yn anelu at ddarparu'r amcangyfrifon gorau o'r costau tebygol, mae sefyllfaoedd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

lle mae sawl ffactor amrywiol yn golygu nad oes modd cyfrifo costau manwl nes bod y ddarpariaeth yn cael ei phrofi a'i hasesu. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i roi gwybod i'r Pwyllgor Cyllid am yr wybodaeth ariannol sy'n ymwneud â phob Bil wrth iddynt fynd drwy wahanol gamau'r broses graffu yn y Senedd.

Yn ogystal, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau â'r arfer a sefydlwyd yn ystod y Bumed Senedd o ysgrifennu at y Pwyllgorau pwnc a'r Pwyllgor Cyllid cyn gweithrediadau Cyfnod 3 o Fil os gwnaed newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2.

Rwyf wedi anfon copi o'ch llythyr ynghyd â'r ateb hwn at bob un o Weinidogion Cymru. Anfonir yr ateb hwn hefyd i'r Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y Pwyllgorau Polisi.

**MARK DRAKEFORD**